# Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

**CC(3) 06-07 (p2): 14 Tachwedd 2007**

## Papur tystiolaeth - Adran Dreftadaeth. Dyraniadau Cyllideb Ddrafft am 2008-09, 2009-10 a 2010-11.

### Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i’r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllideb rhaglenni’r Adran Dreftadaeth yn y dyfodol fel y’u hamlinellwyd yn y cyhoeddiad am y gyllideb ddrafft a wnaed gan y Gweinidog Cyllid ar 5 Tachwedd 2007.

### Cefndir

Gwnaed cynigion y gyllideb ddrafft ar gefndir setliad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant heriol ond rhesymol, sy’n rhoi i Lywodraeth y Cynulliad gynnydd cyfartalog mewn termau real o 1.8%  dros y cyfnod o dair blynedd o gymharu â’n llinell sylfaen gwirioneddol yn 2007-08.

Yn ystod y cyfnod yn arwain at gyhoeddi’r setliad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae swyddogion yn yr Adran Dreftadaeth wedi bod yn cydweithio’n agos â’u cydweithwyr yn yr Adran Gyllid i bennu setliad priodol i Brif Grŵp Gwariant treftadaeth am y 3 blynedd nesaf. Mae’r trafodaethau hyn wedi canolbwyntio ar nodi tystiolaeth am bwysau gwariant ar draws pob maes o waith yr adran, gan roi ystyriaeth arbennig i ofynion cyllido 'Cymru’n Un’.

Yn dilyn y trafodaethau hyn a chyfarfod dwyochrog cyllideb â’r Gweinidog Cyllid, mae cynigion y gyllideb ar gyfer Treftadaeth yn cynnwys dyraniad net ychwanegol o £35.621m dros y cyfnod o dair blynedd, o’i gymharu â’r flwyddyn ariannol 2007-08. Dyrannwyd hyn yn £8.504m yn 2008-09, £13.186m yn 2009-10 a £13.931m yn 2010-11.

Mae’r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb llinell sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) yr Adran.

### Tabl Ariannol Cryno:

| | 2007/08 (i) | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Sylfaen TGA | 147,047 | 146,922 | 146,927 | 148,927 |
| Newidiadau | | 8,504 | 13,186 | 13,931 |
| Wedi’u diwygio | | 155,426 | 160,113 | 160,858 |
| % Twf 07/08 | | 5.7% | 8.9% | 9.4% |
| % Twf Blynyddol | | | 3.0% | 4.6% |

### Trosolwg o’r Gyllideb

Prif flaenoriaeth yr Adran Dreftadaeth dros y pedair blynedd nesaf yw cyflenwi ei hymrwymiadau yn 'Cymru’n Un’ ac rwyf yn hyderus y bydd y cynigion yn y gyllideb ddrafft yn ein galluogi i wneud hynny.

Fodd bynnag mae pwysau mawr o hyd ar y gyllideb Dreftadaeth a bydd rhaid parhau i wneud penderfyniadau anodd rhwng blaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd. Felly mae’n hynod bwysig ein bod yn parhau i wneud arbedion drwy wella effeithlonrwydd a datblygu effaith ein hadnoddau hyd yr eithaf.

Oherwydd hyn mae’n anochel y bydd rhaid i ni hyrwyddo perthynas weithio agosach rhwng yr Isadrannau yn y portffolio newydd hwn er mwyn cyflenwi canlyniadau ar y cyd.

Hefyd bydd defnyddio rownd newydd y cronfeydd strwythurol yn effeithiol yn allweddol i wella’r modd y caiff nifer o raglenni eu cyflenwi. Bydd yr aelodau’n ymwybodol fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cytuno ar y Fframweithiau Strategol yn ddiweddar ac mae swyddogion wrthi’n llunio manylion amrediad o brosiectau y gellid eu targedu ar gyfer arian Ewropeaidd ac maent hefyd yn nodi adnoddau rhaglenni priodol i’w defnyddio fel Arian Cyfatebol.

Bydd y prosiectau a gaiff eu cyflenwi o dan y rownd newydd yn fwy o faint ac yn fwy strategol gyda pherthnasoedd gweithio agosach ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid sector preifat.

### Meysydd y Rhaglen Wariant

### Diwylliant, yr iaith Gymraeg a Chwaraeon a CyMAL
### Refeniw Diwylliant a Chyfalaf Diwylliant

Mae Maes Rhaglen Wariant Diwylliant yn cynnwys y cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru: National Museum of Wales a Chyngor Llyfrau Cymru. Cyfeirir y rhan fwyaf o'r cyllid drwy'r Cyrff a Noddir, gan dalu eu costau rhedeg a'u galluogi i gyflenwi eu rolau ledled Cymru.

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Mae staff CCC mewn swyddfeydd ym Mae Colwyn, Caerfyrddin a Chaerdydd a thelir y costau staffio a rhedeg swyddfeydd o Faes Rhaglen Wariant Diwylliant.

Bydd cynigion y gyllideb ddrafft yn galluogi CCC i:

barhau i gefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru - ar lefel genedlaethol a rhanbarthol;

parhau gyda'r cynllun llwyddiannus Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd;

symud tuag at sefydlu Theatr Saesneg i Gymru;

cefnogi cyfleoedd i'n hartistiaid gymryd rhan ar lwyfan y byd.

### Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC) yn cyflogi oddeutu 300 o staff, sy'n gyfrifol am gynnal y casgliadau presennol a hyrwyddo mynediad iddynt. Mae hyn yn gofyn am waith sylweddol yn cynnal a chadw'r safle i sicrhau cadwraeth ddigonol. Maen nhw hefyd yn goruchwylio Culturenet Cymru.

Bydd cynigion y gyllideb ddrafft yn galluogi LlGC i:

gasglu a chadw deunyddiau;

rhoi mynediad i ddefnyddwyr y Llyfrgell i'w hadeilad, ei gwefan, ei chasgliadau a'i gwasanaethau, a rhoi gwybodaeth amdanynt;

codi ymwybyddiaeth am y casgliadau a lledaenu gwybodaeth amdanynt;

cydweithio â chyrff proffesiynol cysylltiedig a rhoi arweiniad iddynt; a

pharhau i greu a datblygu gwefannau dwyieithog am ddiwylliant a threftadaeth drwy Culturenet Cymru.

### Amgueddfa Cymru: National Museum of Wales

Mae Amgueddfa Cymru: National Museum of Wales yn cyflogi 700 o staff ar saith safle ledled Cymru, yn gwarchod agweddau ar dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Bydd y gyllideb ddrafft yn galluogi Amgueddfa Cymru i:

gynnal ei saith safle presennol ledled Cymru;

ehangu a chadw casgliadau, a galluogi mynediad i'r casgliadau hynny ledled Cymru;

datblygu proffil casgliadau a gweithgareddau ymchwil yr Amgueddfa yn y DU ac yn rhyngwladol; a

rheoli casgliadau, ystadau ac adnoddau'r Amgueddfa'n effeithiol.

### Cyngor Llyfrau Cymru

Mae Cyngor Llyfrau Cymru (CLlC) yn cynnig nifer o wasanaethau arbenigol ym maes golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu, er mwyn gwella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yn Gymraeg a Saesneg. Mae wedi ymrwymo i hyrwyddo darllen a llythrennedd yng Nghymru a dyma'r unig gorff sy'n ymwneud â holl rychwant cyhoeddi. Mae canolfan CLlC yn Aberystwyth, a'r costau staffio a rhedeg swyddfa'n cael eu talu o Faes Rhaglen Wariant Diwylliant.

Bydd cynigion y gyllideb ddrafft yn galluogi CLlC i:

barhau i oruchwylio cyhoeddi cyfres Llyfrgell Cymru, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;

gynnig grantiau i gyhoeddi llyfrau a chylchgronau Cymraeg a Saesneg eu hiaith; a

pharhau i hyrwyddo darllen a llythrennedd mewn ysgolion ledled Cymru;

cynnal y ddau glwb llyfrau Cymraeg i blant: Sbondonics a Sbri-di-ri.

### Diwylliant, yr iaith Gymraeg a Chwaraeon

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio i roi cyfle i bawb fwynhau'r profiadau diwylliannol cyfoethog ac amrywiol sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu hyd yr eithaf y manteision iechyd y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol eu rhoi i'r boblogaeth.

Yn ogystal â gwaith ein CNLCau bydd Maes Rhaglen Wariant Diwylliant yn rhoi rhagor o gefnogaeth refeniw i Ganolfan Mileniwm Cymru. Bydd y gyllideb ddrafft yn ein galluogi i roi cyllid i orsafoedd radio cymunedol ledled Cymru ac i gynyddu'r arian a'r gefnogaeth i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i weithredu argymhellion Adolygiad Stephens ac yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant a darparu profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i'w cymunedau.

### CyMAL

Mae CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn cefnogi datblygiad amgueddfeydd, archifau a gwasanaethau llyfrgell lleol ac mae'n rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol. Bydd y gyllideb ddrafft yn galluogi CyMAL i barhau i roi cefnogaeth i amgueddfeydd, archifau a gwasanaethau llyfrgell lleol gan roi grantiau datblygu lle y bo'n briodol.

Bydd hefyd yn galluogi CyMAL i barhau i fuddsoddi mewn ymchwil ac i ailwampio'r rhwydwaith llyfrgelloedd lleol drwy roi grantiau ar gyfer gwelliannau i adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus lleol. Mae'r rhaglen gyfalaf hon yn ganlyniad uniongyrchol i ymchwil a nododd fod hen ddyluniad nifer o lyfrgelloedd cyhoeddus yn rhwystr i ddefnyddwyr newydd a thystiolaeth fod buddsoddi mewn ailwampio llyfrgelloedd yn esgor ar gynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Datblygir pedair partneriaeth ranbarthol a fydd yn cwmpasu Cymru gyfan ac a fydd yn darparu gwasanaethau llyfrgell ar y cyd i ddefnyddwyr.

Yn ogystal â hyn bydd CyMAL yn datblygu Casgliad o Hanes Pobl Cymru gyfan: gwefan arloesol, ryngweithiol sy'n amlinellu themâu pwysig yn stori Cymru ac sy'n dod ag eitemau o gasgliadau yn ein hamgueddfeydd, ein harchifau a'n llyfrgelloedd at ei gilydd.

### Refeniw Chwaraeon a Chymru Egnïol a Chyfalaf Chwaraeon a Chymru Egnïol

Mae Maes Rhaglen Wario Chwaraeon a Chymru Egnïol yn cynrychioli buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y strategaeth Dringo'n Uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei gyfeirio drwy gyfrwng Cyngor Chwaraeon Cymru, asiant cyflenwi Llywodraeth y Cynulliad, i gynyddu mynediad a chyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a rhagoriaeth ynddynt mewn cymunedau ledled Cymru.

### Cyngor Chwaraeon Cymru

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n canolbwyntio ar dair thema: Pobl Ifainc Egnïol, Cymunedau Egnïol; a Pherfformiad a Rhagoriaeth.

Bydd cynigion y gyllideb ddrafft yn galluogi Cyngor Chwaraeon Cymru i:

ddatblygu'r fenter nofio am ddim i bobl hŷn a phlant a phobl ifainc;

estyn menter rhaglen 5x60 a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion;

creu rhagor o gyfleoedd gwell a chynaliadwy ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol;

cynnal y gefnogaeth i'r Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol ac athletwyr talentog; a

cynyddu nifer ac ansawdd yr hyfforddwyr a'r arweinwyr ar bob lefel o'r ddarpariaeth ac yn arbennig ar lefel trwch y wlad.

Yn ogystal byddwn yn gweithio gyda Phwyllgor Trefnu Llundain ar gyfer y Gêmau Olympaidd i ddatblygu'r cyfleoedd i Gymru hyd yr eithaf yn sgil Gêmau Olympaidd a Gêmau Paralympaidd 2012 a'r etifeddiaeth ohonynt gan gynnwys cynnal Gemau Ysgolion y DU yn 2009 yn llwyddiannus.

Refeniw Cymru Ddwyieithog a Chyfalaf Cymru Ddwyieithog

Mae Maes Rhaglen Wariant Cymru Ddwyieithog yn cynnwys cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg. Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ei chyfeirio drwy gyfrwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan dalu ei gostau rhedeg a'i alluogi i gyflenwi ei rôl ledled Cymru.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Nod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a sefydlwyd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yw annog y nifer gynyddol o siaradwyr

Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae'r Bwrdd yn rhoi cyngor ar ddefnyddio'r Gymraeg ac yn monitro a gorfodi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Mae ei swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caernarfon a Chaerdydd, a chaiff costau staffio a rhedeg swyddfeydd eu talu o Faes Rhaglen Wariant Cymru Ddwyieithog.

Bydd cynigion y gyllideb ddrafft yn galluogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg i:

roi grantiau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;

hyrwyddo addysg Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg gan gynnwys cerddoriaeth;

gweithio gyda'r sector preifat i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;

parhau i gefnogi'r 22 Menter Iaith a'r 10 cynllun gweithredu iaith sydd yn eu lle ledled Cymru; a

datblygu a monitro Cynlluniau Iaith Gymraeg.

Yn ogystal â hyn byddwn yn ceisio cael gwell cymhwysedd deddfwriaethol ar yr iaith Gymraeg ac yn ceisio cael cytundeb i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn meysydd penodol o Fusnes yr Undeb Ewropeaidd. Caiff prosiect Addysgu'r Gymraeg ym Mhatagonia ei gynnal, gan roi hwb i rôl Cymru ar lwyfan y byd.

### CADW

Refeniw Cymru Hanesyddol a Chyfalaf Cymru Hanesyddol

Nod Cymru Hanesyddol (Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)) yw cadw, gwarchod, cynnal a chyflwyno amgylchedd hanesyddol Cymru i gael amgylchedd hanesyddol hygyrch sydd wedi'i warchod yn dda.

Dros y tair blynedd nesaf bydd Cadw'n dal ati gyda rhaglenni pwysig o waith i gadw a gwella mynediad i henebion sydd yng ngofal Llywodraeth Cynulliad Cymru a pharhau gyda'r gefnogaeth drwy gymorth grant i adnewyddu treftadaeth leol. Bydd hyn yn codi nifer yr adeiladau hanesyddol, y safleoedd archeolegol a'r henebion sy'n cael eu gwarchod ac y daethpwyd â nhw'n ôl i gael eu defnyddio, yn lleihau nifer yr adeiladau sydd 'mewn perygl' ac yn cynyddu gallu cymunedau lleol i feithrin adfywiad drwy'r amgylchedd hanesyddol.

### Gwariant Cyfalaf Cadw

Prif gytundebau cadwraeth a gwaith mynediad i safleoedd yng ngofal Llywodraeth Cynulliad Cymru. Prif grantiau cyfalaf adeiladau hanesyddol a henebion (h.y. safleoedd nad ydynt yng ngofal y Wladwriaeth).

### Gwariant Cyfredol Cadw

Cynnal cadwraeth a gwell mynediad i henebion Cadw a'u cyflwyno'n well; cefnogaeth i waith Ymddiriedolaethau Archeolegol; grantiau cyfredol i adeiladau hanesyddol (nad ydynt yng ngofal y Wladwriaeth).

### Incwm Cadw

Incwm o dâl mynediad i henebion a gwerthiant cofroddion a chyhoeddiadau, hefyd peth incwm o ffilmio, priodasau a gosodiadau eraill; a symiau cymharol fach am gyngor arbenigol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

### Gwariant Cyfalaf CBHC

Gofynion cyfalaf safle a gweithrediadau'r Comisiwn.

### Costau Rhedeg a Gwariant Cyfredol CBHC

Adolygu a chyflwyno gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol; cynnal a chadw Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru; cyflogau staff y Comisiwn gan gynnwys darparu cyfleusterau astudio a gwasanaethau addysgol i'r cyhoedd.

### Ymrwymiad Cymru'n Un

Mae arian wedi'i ddarparu yn y llinell sylfaen i alluogi Cadw i gyflenwi Ymrwymiad Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru sef rhoi mynediad am ddim i bensiynwyr a phlant yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hyn yn annog rhagor o "berchnogaeth" a mynediad i'r safleoedd hynny sydd yng ngofal Llywodraeth Cynulliad Cymru y mae'n rhaid talu am fynediad iddynt ar hyn o bryd.

### Twristiaeth a Marchnata
### Refeniw Twristiaeth

Mae ffaith fod twristiaeth yn fy mhortffolio Treftadaeth - ochr yn ochr â Cadw, chwaraeon, diwylliant a'r celfyddydau - yn creu cyfleoedd newydd a chyffrous er mwyn helpu i sicrhau bod gwneud polisïau yn y meysydd hyn yn cydredeg yn fwy clòs.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant darniog ac yn un y mae angen ei ddatblygu ledled Cymru fesul rhanbarth i sicrhau ein bod yn gwneud yn fawr o adnoddau a manteision lleol. Gwelaf y bydd y pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol yn chwarae rhan bwysig wrth gyflenwi hyn gyda chyllid parhaus drwy fy adran Twristiaeth a Marchnata.

Hefyd eir ati'n fwy strategol a phenodol i ddatblygu twristiaeth - yn arbennig felly mewn prosiectau ar raddfa fwy. Mae Cynllun Gofodol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi'n eglur feysydd lle gall twristiaeth chwarae rhan arwyddocaol wrth adfywio ardaloedd penodol o Gymru.

Ein nod yw gwella ansawdd y cynnyrch twristaidd a hybu buddsoddi. Mae cefnogaeth y Llywodraeth i fusnesau - gan gynnwys busnesau twristiaeth - wedi cael ei hadolygu, gyda Chronfa Buddsoddiad Sengl yn cael ei datblygu drwy gyfuno'r saith grant presennol o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Bydd busnesau twristiaeth yn gallu cael mynediad i'r arian hwn a fydd yn cael ei gadw o fewn cyllid Adran yr Economi a Thrafnidiaeth - gobeithir y bydd y cynllun ar waith ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Hefyd byddwn yn gweithio ar ein gwaith gyda'r diwydiant i wella statws a phroffesiynoldeb gyrfa yn y sector twristiaeth a lletygarwch a byddwn yn cefnogi gwaith Fforwm Hyfforddi Twristiaeth yng Nghymru a'i ymwneud â 'People 1st' Cyngor Sgiliau Sector y DU gyda chyfrifoldeb am y sector Twristiaeth a Lletygarwch.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant hynod gystadleuol gyda gwledydd a chyrchfannau sy'n dod i'r amlwg i gyd yn ymladd am eu rhan o'r farchnad dwristiaeth. Fel y nodwyd yn eglur yn Cymru'n Un, byddwn yn parhau i hyrwyddo a marchnata Cymru yn y DU a thramor a defnyddio ein cefn gwlad trawiadol, ein golygfeydd arfordirol a'n manteision unigryw o ran diwylliant a hanes i ddenu ymwelwyr i Gymru. Yn rhan o hyn, byddwn yn canolbwyntio mwy ar hyrwyddo a datblygu'r marchnadoedd egwyl byr a gweithgareddau sydd hefyd yn helpu i estyn y tymor twristiaeth.

## Perfformiad
## Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
## Maes Rhaglen Wariant Diwylliant

Bydd pob gwariant o dan y Maes Rhaglen Wariant hwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant, ehangu mynediad a dileu rhwystrau. Bydd perfformiad CCC yn cael ei fonitro yn erbyn targedau perfformiad y cytunwyd arnynt er mwyn sicrhau rhagor o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o ansawdd uchel a rhagor o fynediad iddynt, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig. Mesurir cyfanswm nifer y cyfranogwyr mewn gweithgareddau gweithdai, dosbarthiadau a pherfformiadau ac archwilir y buddsoddiad yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn erbyn gwerthiant o Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru.

### Maes Rhaglen Wariant Chwaraeon a Cymru Egnïol

Caiff pob gwariant o dan y Maes Rhaglen Wariant hwn ei ganolbwyntio ar hybu chwaraeon a gweithgarwch corfforol a gweithredu polisi strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Dringo'n Uwch. Bydd arolygon cyfranogi bob dwy flynedd Cyngor Chwaraeon Cymru ac Arolwg Iechyd Cymru yn mesur canran yr oedolion sy'n cymryd "5 x 30" munud o weithgarwch corfforol yr wythnos a chanran y plant sy'n cymryd "5 x 60" munud o weithgarwch corfforol yr wythnos. Caiff perfformiad ei fesur hefyd yn nhermau llwyddiant systematig ar lwyfan y byd gan chwaraeon â blaenoriaeth.

### Maes Rhaglen Wariant Cymru Ddwyieithog

Bydd pob gwariant yn y Maes Rhaglen Wariant hwn yn canoli ar greu Cymru ddwyieithog. Caiff perfformiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei fesur yn erbyn targedau perfformiad y cytunwyd arnynt, gan ystyried niferoedd y siaradwyr Cymraeg a sicrhau y gall rhagor o bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau.

### CyMAL

Mae'n ofynnol yn unol â Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau llyfrgell cynhwysfawr ac i Weinidog arolygu'r gwasanaethau llyfrgell y mae awdurdodau lleol yn eu darparu. Mae **Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru** Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro perfformiad y gwasanaethau llyfrgell y mae awdurdodau lleol yn eu darparu. Rhwng 2002-2005 ar draws llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru bu gwelliant o 100% o ran cyflenwi ceisiadau darllenwyr yn brydlon ac effeithlon, bu gwelliant o 84% o ran darparu adnoddau a gwasanaethau TGCh, bu cynnydd o 45% yn y gwariant ar ddeunyddiau llyfrgell at ddefnydd cyhoeddus a bu cynnydd o 15% yn nifer yr ymwelwyr.

Hefyd caiff gwaith CyMAL ei ymchwilio a'i werthuso. Caiff perfformiad Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru - National Museum Wales eu monitro bob chwarter gan CyMAL yn ei rôl fel is-adran noddi.

### CADW
### Gwariant Cyfalaf Cadw

Parhau i wella cadwraeth a mynediad i'r cyhoedd i henebion Cadw yn unol â Strategaeth Mynediad CADW a gyhoeddwyd a'r Cynllun Dehongli sydd ar y gweill. Caiff arian ei ddyrannu i brosiectau mawr megis gwella mynediad a chyfleusterau newydd i ymwelwyr yn Safle Treftadaeth y Byd, Castell Caernarfon, agor rhan o waliau tref Caernarfon ym Mhorth Mawr, gwaith atgyfnerthu mawr a gwella mynediad i'r cyhoedd yn waliau tref Dinbych a datblygiadau arwyddocaol yn Llys Tretŵr ger Aberhonddu gan gynnwys gwaith ailgodi'r to, cyfleusterau newydd i ymwelwyr a gwella'r mynediad. Parhau i gefnogi drwy grantiau er mwyn cadw adeiladau hanesyddol a henebion arwyddocaol Cymru.

### Gwariant Cyfredol Cadw

Gwariant parhaus i gadw a gwarchod henebion sydd yng ngofal Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y cynnydd yn y gyllideb ddrafft yn helpu i gynnal lefel gadwraeth foddhaol yn wyneb costau chwyddiant ac yn galluogi Cadw i wneud arolygon ecolegol a fydd yn sail i drefn cynnal a chadw well a chynaliadwy. Bydd yn cefnogi lefel uwch o grantiau i adeiladau hanesyddol er mwyn helpu i ateb y gofyn parhaus, a helpu i warchod adeiladau sy'n swyddogol 'mewn perygl'. Bydd hefyd yn cefnogi gwella golwg adeiladau a threfluniau allweddol ac felly'n cyfrannu i'r economi twristiaeth.

Mae cefnogaeth i'r Ymddiriedolaethau Archeolegol yn cyflenwi cadwraeth, cofnodi a phrosiectau treftadaeth gymunedol ledled Cymru.

### Incwm Cadw

Mae'r incwm yn helpu gwneud iawn am y costau sydd i Lywodraeth y Cynulliad wrth gynnal a chadw a gwella mynediad i'r amgylchedd hanesyddol.

### Gwariant Cyfalaf CHBC

Parhau i weithredu safle'r Comisiwn a'r seilwaith TG.

### Costau Rhedeg a Gwariant Cyfredol CHBC

Sicrhau yr ymgymerir â rhaglen arolygu'r amgylchedd hanesyddol y cytunwyd arni; bod y Cofnod Henebion Cenedlaethol yn cael ei wella a bod gwelliannau'n parhau o ran ei gyflwyno i'r cyhoedd. Bydd y gyllideb ddrafft yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i wella adeiladwaith adeilad y Comisiwn ym Mhlascrug, Aberystwyth, y mae arno angen gwaith cynnal a chadw brys. Mae'r adeilad yn fan lle cedwir cofnodion cyhoeddus ac mae angen iddo gydymffurfio â safonau a osodir gan yr Archifau Cenedlaethol.

Bydd hefyd yn helpu tuag at gynnal cyflogau staff ac felly tuag at gyflenwi busnes craidd y Comisiwn.

### Twristiaeth a Marchnata
### Refeniw Twristiaeth

Caiff cynnydd ar bob un o'r agweddau hyn ei fonitro drwy dargedau penodol sydd yn y Cynllun Cyflenwi Twristiaeth a Marchnata - gan gynnwys targedau buddsoddi cyfalaf, targedau ymwelwyr, ac ati.